| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 8 Medi 2015 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol: | Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Berfformiad/ Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| Awdur yr Adroddiad: | Nicola Kneale, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol |
| Teitl: | Adroddiad Gwella Blynyddol SAC ar CSDd |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?
Crynhoi'r canfyddiadau allweddol o Adroddiad Gwella Blynyddol SAC (Atodiad 3) ynghylch trefniadau cynllunio ac adrodd Sir Ddinbych er mwyn bodloni dyletswyddau gwelliant parhaus statudol, ac i gytuno ar ymateb a gadarnhawyd gan y Cyngor i'r Adroddiad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?
Rhoi gwybod i'r Cyngor am Gasgliad a Chynigion Gwella SAC, ac i sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor o'r ymateb i'r Adroddiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?
I'r Cyngor nodi'r Casgliadau, Cynigion Gwella, a Chanfyddiadau Allweddol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a chymeradwyo ymateb i'r Cynigion Gwella (yn ôl y disgwyl gan Swyddfa Archwilio Cymru).
Mae ymateb y Cyngor wedi cael ei gydlynu gan y Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol, sydd wedi gofyn i wasanaethau ddatgan eu safbwynt mewn perthynas â phob argymhelliad, ac mae hefyd wedi mynd â'r adroddiad hwn at Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu cynnwys (ynghlwm) er mwyn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Y casgliad cyffredinol yw:
Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ac mae ei hanes o ran cyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.

4.2 Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol wedi eu gwneud, dim ond dau Gynnig Gwella. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn disgwyl i'r Cyngor i wneud rhywbeth yn eu cylch a bydd yn dilyn i fyny ar yr hyn sy'n digwydd. Y Cynigion ar gyfer Gwella yw:

a. Sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni'r amcan tai fforddiadwy newydd. Ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r Cynnig Gwella hwn yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn;

b. Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Leol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen. Mae ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r Cynnig Gwella hwn hefyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn;
Mae Adroddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Leol yn cwmpasu meysydd megis Archwilio, pobl ifanc sy'n NEET, a'r Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd. Gellir gweld ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r argymhellion cenedlaethol hyn yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

4.3 Mae rhestr o gasgliadau allweddol gan wahanol gyrff archwilio (ee Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC) wedi eu rhestru o dudalen 8 yr adroddiad sydd ynghlwm, ac yn cynnwys y meysydd o Berfformiad, Defnydd o Adnoddau, Llywodraethu, Cynllunio Gwella ac Archwiliadau Adrodd, ac Archwilio Cyfrifon. Mae rhai negeseuon allweddol yn cynnwys:

a. Mae safonau perfformiad, rheoli risg, gwerthusiadau perfformiad, a threfniadau ariannol o safon gadarn a da.
b. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran y gwasanaeth adnoddau dynol, yr iaith Gymraeg, ac ymrwymiad DHP. Bydd gwelliannau wrth fonitro DHP (ar y gweill ers mis Ebrill 2015) yn helpu i egluro eu heffaith.
c. Y gobaith yw y bydd y trefniadau newydd ar waith yn cefnogi uchelgais y Cyngor o ran yr economi.
d. Mae heriau yn bodoli ar ffurf uno arfaethedig y gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r gwasanaeth Addysg, a thanberfformiad yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?
Mae nifer o'r argymhellion hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol (ee Tai Fforddiadwy), ac mae trefniadau cynllunio a gwerthuso effeithiol yn elfennau hanfodol sy'n sail i berfformiad da.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?
Nid oes unrhyw gostau penodol yn gysylltiedig ag argymhellion yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.
Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddatblygu polisi neu brosiect, felly nid oes unrhyw faterion Cydraddoldeb. Fodd bynnag, dylai unrhyw gynlluniau sy'n cael eu datblygu mewn ymateb i'r adroddiad hwn fod yn destun AEC.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?
Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, felly nid oedd angen ymgynghori. Fodd bynnag, bydd ymateb ffurfiol y Cyngor yn cael ei ddarparu, ac rydym yn gofyn am gymeradwyaeth o hynny heddiw.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid
Dim angen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.